

## **Taliadau Costau Byw Hysbysiad Preifatrwydd**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cynnwys sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (fel rheolydd data) yn casglu, yn defnyddio ac yn rhannu eich data personol at ddibenion prosesu'r Taliad Costau Byw gan y Gwasanaethau Refeniw.

### **Pam mae angen eich gwybodaeth arnom (diben prosesu)**

Rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol fel y gallwn wirio ac asesu a ydych yn gymwys ar gyfer y Taliad Costau Byw.

Bydd yr wybodaeth a roddwch yn cael ei phrosesu yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, Deddf Diogelu Data 2018 a chanllawiau Llywodraeth Cymru – <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-pecyn-cymorth-costau-byw>

Bydd eich data'n cael ei groeswrio â'n cofnodion treth gyngor a gostyngiadau'r dreth gyngor, tai, Cifas a Spotlight i wirio'r manylion banc rydych wedi'u rhoi i ni.

Byddwn hefyd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, a gallwn rannu'r wybodaeth hon hefyd gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll/troseddau neu archwilio/gweinyddu cyllid cyhoeddus er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chost-effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, caiff gwybodaeth ei rhannu gyda'n Gwasanaeth Archwilio o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a chydag Archwilydd Cyffredinol Cymru ([Hysbysiad Preifatrwydd Archwilio Cymru](#)).

Ni fyddwn yn gwneud unrhyw ddatgeliadau i drydydd partïon at ddibenion marchnata.

Bydd eich data'n ddiogel ac yn gyfrinachol bob amser a byddwn ond yn casglu'r wybodaeth bersonol sydd ei hangen er mwyn i chi dderbyn ein gwasanaeth.

### **Pa fath o ddata personol sy'n cael ei gasglu?**

Mae'r categorïau o ddata personol sy'n cael eu casglu fel a ganlyn:

- Enw a chyfeiriad
- Cyfeiriad e-bost
- Rhif cyfrif y dreth gyngor
- Cytundeb tenantiaeth
- Manylion eich cyfrif banc

### **Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?**

Mae Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR) yn ei gwneud yn ofynnol i amodau penodol gael eu bodloni i sicrhau bod prosesu'ch data personol yn gyfreithlon. Nodir yr amodau perthnasol hyn isod:

Erthygl 6 (1)(e) Tasg gyhoeddus: mae'r prosesu'n angenrheidiol i ni gyflawni tasg a gynhelir er budd y cyhoedd neu ar gyfer ein swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail glir yn y gyfraith.

### **Gyda phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth?**

Efallai bydd angen i ni rannu'ch data personol ag adrannau mewnol, sefydliadau eraill a thrydydd partïon. Bydd hyn yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru, yr ydym yn gweinyddu'r cynllun ar ei rhan
- Ein hadran credydwy'r fewnol er mwyn prosesu'r taliad
- Spotlight, y byddwn yn eu defnyddio i wirio eich manylion banc

- Y Gwasanaethau Refeniw at ddibenion dilysu hawl gan ddefnyddio gwybodaeth a gedwir ar eich cyfrif treth gyngor a'ch cais am ostyngiad yn y dreth gyngor
- Mae gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ddyletswydd i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus y mae'n ei reoli. Felly, efallai y caiff yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi i ni ei defnyddio i atal a chanfod twyll ac at ddibenion archwilio, yn fewnol ac yn allanol.

Caiff yr wybodaeth bersonol a gasglwyd gennych ei rhannu gydag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac i wirio eich hunaniaeth. Os caiff twyll ei ganfod, gellid eich rhwystro rhag derbyn gwasanaethau penodol, arian neu waith. Gallwch weld rhagor o fanylion am sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio gennym a'r asiantaethau atal twyll hyn, a'ch hawliau diogelu data, yma: <https://www.cifas.org.uk/fpn>

### **Pa mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?**

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ond yn cadw eich gwybodaeth am gyhyd ag y bo angen. Byddwn yn cadw'r wybodaeth a ddarperir i ni am chwe blynedd ynghyd â'r flwyddyn ariannol bresennol a chaiff eich gwybodaeth ei dileu'n ddiogel unwaith na fydd ei hangen rhagor.

### **Eich hawliau**

O dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018, mae gennych hawliau fel unigolyn, gan gynnwys fel a ganlyn:

- Yr hawl i **gywiro** – mae gennych yr hawl i ofyn i'ch gwybodaeth gael ei chywiro.
- Gall yr hawl i **gyfyngu** ar brosesu fod yn berthnasol – gallwch ofyn i ni atal prosesu eich data personol, ond gallai hyn ein hoedi neu ein hatal rhag cyflenwi gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd gofyn i ni gadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i **wrthwynebu** – nid yw hon yn hawl ddiamod a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.
- Yr hawl i **ddileu** – gallwch ofyn i ni ddileu eich data personol, ond gallai hyn ein hoedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth neu barhau i ddarparu gwasanaeth. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd gofyn i ni gadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i beidio â bod yn destun **penderfyniadau a phroffilio awtomataidd**.
- Yr hawl i **gyrchu** – mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopiâu o'ch data personol. I wneud cais, cysylltwch â:

Mynediad at Gofnodion

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Swyddfeydd Dinesig,

Stryd yr Angel,

Pen-y-bont ar Ogwr,

CF31 4WB.

E-bost: [foi@bridgend.gov.uk](mailto:foi@bridgend.gov.uk)

### **Cwynion neu ymholiadau**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ceisio bodloni'r safonau uchaf posibl wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Oherwydd hyn, rydym yn cymryd unrhyw gwynion a dderbyniwn ynglŷn â hyn o ddifrif. Rydym yn annog pobl i roi gwybod i ni os ydynt yn credu bod y ffordd yr ydym yn casglu gwybodaeth neu'n ei defnyddio yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi manylion cynhwysfawr o'r holl agweddau ar sut rydym yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, rydym yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol sydd ei angen. Dylai unrhyw geisiadau am hyn gael eu hanfon i'r cyfeiriad isod:

Swyddog Diogelu Data

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Swyddfeydd Dinesig,

Stryd yr Angel,

Pen-y-bont ar Ogwr,

CF31 4WB.

E-bost: [foi@bridgend.gov.uk](mailto:foi@bridgend.gov.uk)

Rhif ffôn: 01656 643565

Os ydych am wneud cwyn am y ffordd yr ydym wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y corff statudol sy'n goruchwyllo'r gyfraith ynglŷn â diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru

Yr Ail Lawr,

Tŷ Churchill

Ffordd Churchill

Caerdydd

CF10 2HH

Ffoniwch 0330 414 6421

Email: [cymru@ico.org.uk](mailto:cymru@ico.org.uk)

Website: <https://ico.org.uk/>